

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Cynllun Pensiwn Aelodau

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon

1 Ebrill 2008 - 31 Mawrth 2009



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Cynllun Pensiwn Aelodau

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon

1 Ebrill 2008 - 31 Mawrth 2009





# Cynnwys

**ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR AM Y CYFNOD A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2009 I AELODAU CYNLLUN PENSIWN AELODAU CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

**YR ADRODDIAD BUDDSODDI**

**DATGANIAD YR ACTIWARI**

**DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R YMDDIRIEDOLWYR**

**DATGANIAD O GYFRANIADAU**

**DATGANIAD YR ARCHWILYDD CYFFREDINOL YNG NGHYMURU YNGLŶN Â CHYFRANIADAU**

**DATGANIAD AR REOLAETH FEWNOL**

**TYSTYSGRIF ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**

**CYFRIFON Y CYNLLUN PENSIWN**

**DATGANIAD CYDYMFFURFIO**



# **ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR AM Y CYFNOD A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2009 I AELODAU CYNLLUN PENSIWN AELODAU CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

## **Cefndir Deddfwriaethol Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Sefydlwyd Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 18 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Mae Adran 20 (4) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn rhoi dilyniant i'r Cynllun. Nid yw Deddf Llywodraeth Cymru 2006 wedi effeithio ar statws cyfreithiol y Cynllun.

Yn ystod y flwyddyn, gwnaed y newidiadau canlynol i Reolau'r Cynllun a gymeradwywyd gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 14 Ionawr 2009.

### **Deiliaid swyddi ychwanegol – Rheol C2(3):**

- Prif Chwip y Llywodraeth
- Cadeiryddion Pwyllgorau sydd â hawl, o dan unrhyw benderfyniad a wnaed o dan Reol Sefydlog 1.7, i gyflog deiliad swydd ychwanegol yn rhinwedd y swydd honno
- Comisiynwyr ar wahân i'r Llywydd
- Prif Chwip yr Wrthblaid cyn belled â bod y person hwnnw hefyd yn dal swydd Rheolwr Busnes y grŵp gwleidyddol sydd o dan sylw

Dyma'r deiliad swyddi yn awr: y Llywydd; y Dirprwy Lywydd; Prif Weinidog Cymru; Gweinidogion Cymru; arweinydd y grŵp gwleidyddol mwyaf heb rôl weithredol; Cadeiryddion Pwyllgorau Pwnc; Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio; Dirprwy Weinidogion Cymru; Cwnsler Cyffredinol, Arweinyddion y Gwrthbleidiau ar wahân i'r mwyaf; Prif Chwip y Llywodraeth; Cadeiryddion y Pwyllgorau hynny sydd â hawl, o dan unrhyw benderfyniad a wnaed gan Reol Sefydlog 1.7, i gyflog deiliad swydd ychwanegol yn rhinwedd y swydd honno; Aelodau o Gomisiwn y Cynulliad (ar wahân i'r Llywydd); a Prif Chwip yr Wrthblaid (os yw'r person hwnnw hefyd yn dal swydd Rheolwr Busnes y grŵp gwleidyddol sydd o dan sylw).

### **Ymddiriedolwr Pensiynwr – Atodlen 1 Rheol B2**

- Ar unrhyw adeg, bydd un o'r chwe ymddiriedolwr yn bensiynwr cyn belled â bod unigolion yn fodlon cyflwyno'u hunain ar gyfer enwebiad, etholiad a phenodiad i'r rôl honno.

Byddai'r gwelliant hwn yn dod â'r Cynllun yn unol â'r arferion gorau ym myd diwydiant ac enwebwyd tri aelod bensiynwr ar gyfer y rôl o Ymddiriedolwr Pensiynwyr.

Roedd yn ofynnol cynnal balot ymysg yr aelodau a oedd yn bensiynwyr a'r ymgeisydd llwyddiannus oedd Dafydd Wigley a fydd yn gweithredu fel yr Ymddiriedolwr Pensiynwr am bedair blynedd.

### **Nod yr Adroddiad**

Mae'r Cynllun wedi'i eithrio o'r gofyniad a nodir yn Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Datgelu Gwybodaeth) 1996 i baratoi adroddiad a chyfrifon archwiledig o fewn 7 mis i ddiwedd y flwyddyn gyfrifo.

Bwriad yr Ymddiriedolwyr yw cydymffurfio ag ysbryd y ddeddfwriaeth hon trwy ddatgelu gwybodaeth berthnasol, gan gynnwys manylion actiwaraid a chyfrifo, i bob aelod o'r Cynllun o fewn 3 mis i ardystio'r cyfrifon archwiliedig yn unol ag Atodlen 1 paragraff 13 o Reolau'r Cynllun.

## Yr Ymddiriedolwyr

Dyma'r Ymddiriedolwyr am y flwyddyn

Alun Cairns AC	(Y Cadeirydd – ymddiswyddodd ar 15 Ionawr 2009)
Eleanor Burnham AC	(Ymddiswyddodd ar 4 Chwefror 2009)
Rosemary Butler AC	(Penodwyd ar 4 Mehefin 2008)
Carwyn Jones AC	(Penodwyd ar 4 Mehefin 2008)
Mohammad Asghar AC	(Penodwyd ar 4 Mehefin 2008)
Dafydd Wigley	(Penodwyd ar 14 Ionawr 2009 fel Ymddiriedolwr Pensiynwr am dymor penodol o bedair blynedd)

Dyma'r Ymddiriedolwyr ar y dyddiad y cymeradwywyd yr adroddiad blynyddol:

Rosemary Butler AC (Cadeirydd dros dro)  
Carwyn Jones AC  
Mohammad Asghar AC  
Dafydd Wigley Ymddiriedolwr Pensiynwr  
Michael German AC (Cymerodd le Eleanor Burnham ar 3 Mehefin 2009)  
William Graham AC (Cymerodd le Alun Cairns ar 3 Mehefin 2009)

## Gweinyddu'r Cynllun

Ysgrifenyddiaeth y Cynllun o fewn Gwasanaethau Ariannol Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n gweithredu'r Cynllun o ddydd i ddydd.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am bensiynau neu gais am unrhyw wybodaeth bellach at yr Ysgrifenyddiaeth yn y cyfeiriadau canlynol:

Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Gwasanaethau Ariannol  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1NA  
Ffôn: 02920 898809/898956  
Ffacs: 02920 898059  
e-bost: [liz.calder@wales.gsi.gov.uk](mailto:liz.calder@wales.gsi.gov.uk)  
[roger.beale@wales.gsi.gov.uk](mailto:roger.beale@wales.gsi.gov.uk)



## Incwm y Gronfa

Mae incwm y Gronfa yn deillio o'r ffynonellau canlynol; cyfraniadau gan Aelodau gweithredol y Cynulliad a chan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad) fel cyflogwr.

Mae Aelodau a Deiliaid Swyddi yn cyfrannu 10% o'u cyflogau os ydynt yn cronni buddion ar sail deugeinfed a 6% o'u cyflogau os ydynt yn cronni buddion ar sail hanner canfed. Mae'r Cynulliad, fel y cyflogwr, yn cyfrannu 23% o gyflogau pensiynadwy at y cynllun sylfaenol a'r cynllun Deiliaid Swyddi. Mae'r cyfraddau hyn wedi bod mewn grym ers 1 Ebrill 2006 yn dilyn yr ail brisiad tair blynedd ar 1 Ebrill 2005.

## Prisiad Actiwaraid

Mae'n ofynnol i Actiwari'r Cynllun Iunio adroddiad ar sefyllfa ariannol gyffredinol y Gronfa bob tair blynedd a gwneud argymhellion ar gyfradd cyfraniad y Cynulliad yn y dyfodol. Cwblhawyd y trydydd prisiad tair blynedd ar 1 Ebrill 2008 a gosodwyd yr adroddiad ar 13 Mai 2009, yn unol â rheolau'r Cynllun.

Roedd y datganiad gan yr Actiwari dyddiedig 26 Mawrth 2009 yn argymhell cyfradd cyfrannu o 23.8% o gyflog pensiynadwy yr Aelodau gan ddechrau o 1 Ebrill 2009 ymlaen. Mae'r gyfradd hon yn cynrychioli'r swm sy'n ofynnol i gwrdd â chostau'r Cynllun er mwyn sicrhau y telir am y buddiannau a'r cyfraniadau a delir i'r Aelodau gan ystyried gwasanaeth presennol a gwasanaeth yn y dyfodol.

Mae'r dystysgrif ddilynol ddyddiedig 29 Mai 2008 (tudalennau 13 a 14) yn cadarnhau bod cyfraniad y Cynulliad o 23.8% yn ddigonol ar gyfer y flwyddyn nesaf. Mae'r lefel bresennol yn ddigonol ar gyfer cwrdd â'r buddiannau presennol. Mae'r datganiadau hyn yn seiliedig ar asedau a rhwymedigaethau'r Cynllun ar y dyddiad prisio. Mae'r datganiadau hyn yn cydymffurfio'n llawn â gofynion Nodyn Cyfarwyddyd GN9 y Sefydliad Actiwarïaid a'r Gyfadran Actiwarïaid.

## Aelodaeth

### Aelodau Gweithredol

Aelodau Gweithredol ar 1 Ebrill 2008	60 ( <i>Y Deiliaid Swyddi yn eu plith: 40</i> )
<i>Ychwaneger:</i> Aelodau newydd yn ystod y flwyddyn	0
<i>Llai:</i> Aelodau sydd wedi gadael yn ystod y flwyddyn	0
Aelodau sydd wedi ymddeol yn ystod y flwyddyn	0
Aelodau a fu farw mewn gwasanaeth	<u>0</u>

**Aelodau Gweithredol ar 31 Mawrth 2009      60**

### Aelodau sy'n oedi cyn cymryd eu pensiwn

Aelodau a oedd yn oedi cyn cymryd eu pensiwn ar 1 Ebrill 2008	16
<i>Ychwaneger:</i> Aelodau sy'n gadael â'r hawl i oedi cyn cymryd eu pensiwn	0
<i>Llai:</i> Aelodau sy'n cymryd yr hawl i oedi cyn cymryd eu pensiwn	<u>(1)</u>

## **Aelodau sy'n Oedi cyn Cymryd eu Pensiwn ar 31 Mawrth 2009** **15**

### Pensiynwyr sy'n derbyn Tâl

Pensiynwyr a oedd yn derbyn Tâl ar 1 Ebrill 2008	15
<i>ychwaneger:</i> Aelodau sy'n ymddeol yn ystod y flwyddyn	1
<i>ychwaneger:</i> Aelodau sy'n cymryd yr Hawl i Oedi cyn cymryd eu pensiwn	0
<i>ychwaneger:</i> Aelodau sydd â dibynyddion newydd	0
<i>llai:</i> Aelodau a fu farw yn ystod y flwyddyn	<u>0</u>

## **Pensiynwyr a oedd yn derbyn Tâl ar 31 Mawrth 2009** **16**

Mae manylion y taliadau a wnaed o'r cynllun yn ystod y flwyddyn yn Nodyn 5 y cyfrifon. O 7 Ebrill 2008 cynyddwyd y taliadau o 3.9% yn unol â Gorchymyn Cynyddu Pensiynau (Adolygu) 2008.

### **Paratoi ac Archwilio'r Cyfrifon Blynnyddol**

Paratuir y cyfrifon yn unol â'r Datganiad Arferion a Argymhellir (SORP), Adroddiadau Ariannol Cynlluniau Pensiwn (diwygiwyd Mai 2007), cyn belled â bod hynny'n briodol.

Mae'r cyfrifon hyn yn cael eu paratoi gan swyddogion Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ar ran yr Ymddiriedolwyr, ac yn cael eu harchwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Maent yn cael eu paratoi a'u harchwilio o dan Adrannau 41 (1) a (6) o Ddeddf Pensiynau 1995 ac yn unol ag OS 1996/1975 Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gofyniad i dderbyn Cyfrifon Archwiliedig a Datganiad gan yr Archwilydd).

Rhagwelir y bydd y cyfrifon archwiliedig yn cael eu gosod gerbron y Cynulliad o fewn 3 mis i lofnodi a chyhoeddi Datganiad yr Archwilydd.

Mae copïau o'r cyfrifon hyn ar gael gan yr Ysgrifenyddiaeth os gwneir cais amdanynt.

### **Crynodeb o'r Wybodaeth Ariannol**

Roedd yr incwm yn ystod y cyfnod yn £1,314,035 (2007-2008 £1,274,862), a gwariant y Cynllun yn £146,029 (2007-2008 £167,656). Roedd asedau net y Cynllun ar 31 Mawrth 2009 yn £10,513,353 (2007-2008 £11,350,332).

Yn ystod y cyfnod talwyd cyfanswm o £197,838 i Reolwyr y Gronfa i'w fuddsoddi yng Nghronfa Bensiwn Reoledig Baillie Gifford yn dilyn adolygiad yr Ymddiriedolwyr o'r polisi buddsoddi a gynhaliwyd gyda chyingor actiwari'r Cynllun. Nid ychwanegwyd dim at Gronfa Bensiwn Reoledig Baillie Gifford yn ystod y flwyddyn. Cyfanswm gwerth y Gronfa yn y farchnad ar 31 Mawrth 2009 oedd £8,672,912 (2007-2008 £10,516,278).

Ar 31 Mawrth 2009, roedd cyfanswm o £1,750,062 (31 Mawrth 2008 £681,832) mewn cyfrif cadw ym manc y Cynllun ac yn ennill llog yn seiliedig ar gyfraddau'r farchnad ariannol gyfredol. Caiff yr arian hwn ei gadw at ddibenion hunanyswiro a nes y bydd yr Ymddiriedolwyr wedi penderfynu ar fuddsoddiadau pellach.

## **Buddsoddiadau**

Mae'r holl fuddsoddiadau mewn daliannau a ganiateir gan reoliadau'r Cynllun ac na chânt eu gwahardd gan yr Ymddiriedolwyr.

Nid yw maint asedau'r cynllun yn ddigon i ganiatáu portffolio llawn amrywiaeth o fuddsoddiadau pe bai'r asedau'n cael eu buddsoddi'n uniongyrchol mewn bondiau, stociau a chyfranddaliadau. Felly, nes i'r asedau dyfu'n ddigon mawr, cred yr Ymddiriedolwyr mai'r ffordd fwyaf effeithiol o fuddsoddi gydag amrywiaeth addas ac am gost resymol yw defnyddio cwmnïau buddsoddi neu gwmnïau buddsoddi penagored.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn disgwyl i adenillion y buddsoddiadau fod yn ganolig neu'n well ar gyfer eu sector wrth eu mesur yn erbyn cronfeydd pensiynau tebyg. Disgwylir hefyd i'r adenillion buddsoddiad fod yn uwch na chwyddiant pris o ddigon o faint fel bod modd sicrhau y darperir ar gyfer buddiannau'r Cynllun yn unol â chyfrifiadau actiwaraid y cynllun.

## **Polisi Buddsoddi**

Yr Ymddiriedolwyr sy'n pennu Polisi Buddsoddi Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a bydd yn cael ei adolygu o bryd i'w gilydd. Nodir y polisi sydd mewn grym ar 31 Mawrth 2009 yn y Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi, sydd wedi'i fabwysiadu gan yr Ymddiriedolwyr ac mae ar gael i Aelodau ar gais gan Ysgrifenyddiaeth y Cynllun. Nid yw'r polisi'n caniatáu unrhyw fuddsoddiad mewn perthynas â'r cyflogwr.

Yn ystod y flwyddyn bu'r Ymddiriedolwyr yn adolygu buddsoddiadau'r Cynllun a pharhawyd i fuddsoddi 15% o'r cyfraniadau rheolaidd yng Nghronfa Bensiwn Fynegrifol Baillie Gifford. Roedd balans y cyfraniadau'n cael ei ddal fel arian tra'n aros am adolygiad llawn o fuddsoddiadau'r Cynllun.

Mae'r amcanion perfformiad ar gyfer y cronfeydd buddsoddi fel a ganlyn:

Cronfa Bensiwn Reoledig Baillie Gifford – perfformio 1.0 – 1.5% yn well bob blwyddyn (gros) na Chronfa Gronedig Ganolrif CAPS Gytbwys dros gyfnodau treigl o dair blynedd.

Dros y pum mlynedd ddiwethaf mae'r Gronfa Bensiwn Reoledig wedi cael cyfradd enillion blynyddol o 3.7% yn erbyn perfformiad meincnodi o 3.2%

Cronfa Bensiwn Fynegrifol Baillie Gifford – perfformio 0.75% yn well bob blwyddyn (gros) na'r elw ar Fyngai Gilt Fynegrifol 5 mlynedd Actiwarau'r FT dros gyfnodau treigl o dair blynedd.

Dros y pum mlynedd ddiwethaf mae'r Gronfa Bensiwn Fynegrifol wedi cael cyfradd enillion blynyddol o 5.2% yn erbyn perfformiad meincnodi o 5.5%.

## **Rheolwr Buddsoddi**

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi penodi Baillie Gifford Life Cyf fel Rheolwyr Cyllid i fod yn gyfrifol am Gynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r Ymddiriedolwyr wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb o reoli'r buddsoddiadau iddynt.

Mae buddsoddiadau'n cael eu gwneud trwy bolisi pensiwn Baillie Gifford Life Ltd. Prif nodwedd y polisi yw bod y buddiannau a geir yn hollol ddibynnol ar berfformiad buddsoddi asedau y Gronfa.

Telir ffi rheoli i Baillie Gifford Life Ltd ar sail canran o gyfanswm gwerth y gronfa yn y farchnad bob blwyddyn (0.45% yng nghyswllt y Gronfa Bensiwn Reoledig a 0.25% yng nghyswllt y Gronfa Bensiwn Fynegrifol), ac mae'r ffi'n cael ei ddiynnu o werth y Gronfa bob mis.

Mae'r holl asedau yn y cronfeydd mynegrifol sy'n cael eu gweithredu gan Baillie Gifford Life Limited yn eiddo i gwmni yswiriant, sef Baillie Gifford Life, a chânt eu cofrestru yn enw Baillie Gifford Life.

Nid oes gan y Cynllun geidwad gan ei fod yn buddsoddi mewn unedau mewn polisi bywyd nad oes angen ceidwad arno. Dyma'r ceidwad ar gyfer Baillie Gifford Life Cyf:

Bank of New York  
One Canada Square  
LONDON  
E14 5AL

Mae adroddiad ar fuddsoddi sy'n ymwneud â'r polisiau ar fuddsoddi yn ystod y flwyddyn ac arolwg o berfformiad buddsoddi y Gronfa yn ystod y flwyddyn, a natur, trefn, y sefyllfa o ran eu gwerthu ar y farchnad stoc a diogelwch yr asedau ar dudalennau 9 i 12. Gwerth y Gronfa Reoledig yn y farchnad ar 31 Mawrth 2009 oedd £7,712,853, sef gostyngiad o £2,023,501 yn ystod y flwyddyn, a gwerth y Gronfa Bensiwn Fynegrifol yn y farchnad ar 31 Mawrth 2009 oedd £960,059 sef gostyngiad o £17,703, fel y nodir yn Nodyn 7 o'r cyfrifon.

**William Graham Aelod Cynulliad  
Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr**

**Rosemary Butler Aelod Cynulliad  
Ymddiriedolwr**

(Ar ran yr Ymddiriedolwyr)

**Dyddiad:** 12 Hydref 2009

## **Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

### **Adroddiad Buddsoddi ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2009**

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi paratoi Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi, sy'n nodi eu polisiau ar fuddsoddi a'u strategaeth ar gyfer eu cyflawni, ac mae copi ar gael ar gais.

Mae'r cyfrifoldeb o reoli buddsoddiadau o ddydd i ddydd wedi'i ddirprwyo i Baillie Gifford & Co, sy'n gweithredu yn unol â chanllawiau a chyfyngiadau a nodir yn y Cytundeb Polisi Bywyd ac yn ôl cyfarwyddiadau a roddir gan yr Ymddiriedolwyr o bryd i'w gilydd.

Mae'r unedau a ddelir gan y gronfa bensiwn yn rhan o gytundeb rhwng yr Ymddiriedolwyr a Baillie Gifford Life Cyf, sydd ar ffurf Polisi Yswiriant. Y polisi ei hun yw'r 'ased' sy'n eiddo i'r Ymddiriedolwyr ac mae'r unedau o fewn y cronfeydd yn cynnig ffordd rwydd o werthuso buddiannau'r polisi.

BGL, y cwmni yswiriant, sy'n berchen ar yr holl asedau o fewn y cronfeydd a weithredir gan BGL, ac maent wedi'u cofrestru yn ei enw. Mae BGL wedi contractio'r rhiant-gwmni sy'n fenter o fewn BG&Co, i gyflawni'r swyddogaeth o Reoli Buddsoddiad yr asedau o fewn y Cwmni Yswiriant a rheolir y swyddogaeth hon gan Gytundeb Rheolaeth Fuddsoddi rhwng y ddau gwmni.

#### **Targed Buddsoddi**

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi gosod nod perfformiad ar gyfer y rheolwyr buddsoddi sy'n ystyried proffil atebolrwydd y Cynllun a'r lefel risg y mae'r Ymddiriedolwyr yn ei hystyried yn briodol. Mae'r cynllun yn buddsoddi yng Nghronfa Bensiwn Reoledig a Chronfeydd Pensiwn Fynegrifol Baillie Gifford.

#### **Yr Awdurdod Buddsoddi**

Buddsoddir yr asedau mewn unedau cronfa cronedig, sy'n cynrychioli cronni asedau, gan amrywiaeth o gronfeydd pensiwn. Gan nad yw buddsoddwyr yn gallu gosod cyfyngiadau, maent yn rhoi rhyddid llawn i'r rheolwr.

Mae'r rheolwr wedyn yn gweithio i sefydlu portffolio llawn amrywiaeth o fewn marchnadoedd stoc ac yn ddaearyddol. Y meincnod ar gyfer dyrannu asedau yw cyfartaledd dosraniad ased cronfa gronedig CAPS ar gyfer y Gronfa Bensiwn Reoledig, ac mae'r Gronfa hefyd yn buddsoddi yn y Gronfa Bensiwn Fynegrifol sy'n gweithredu yn ôl ei meincnod ei hun. Mae athroniaeth ac amcanion buddsoddi Cronfeydd Pensiwn Reoledig a Chronfeydd Pensiwn Fynegrifol BLG yn gyson â'r awdurdod a lofnodwyd gan yr Ymddiriedolwyr.

#### **Cronfa Bensiwn Reoledig Baillie Gifford**

Targed presennol Cronfa Bensiwn Reoledig Baillie Gifford yw perfformio 1.0 -1.5% yn well bob blwyddyn (gros) na Chronfa Gronedig Ganolrif CAPS Gytbwys dros gyfnodau treigl o 3 blynedd.

#### **Cronfa Bensiwn Fynegrifol Baillie Gifford**

Targed presennol Cronfa Bensiwn Fynegrifol Baillie Gifford yw perfformio 0.75% yn well bob blwyddyn (gros) na'r elw ar Fynegai Gilt Fynegrifol 5 mlynedd Actiwarau'r FT dros gyfnodau treigl o 3 blynedd.



## Cefndir yr Economi a'r Farchnad – 12 mis tan 31 Mawrth 2009.

Disgynnodd y marchnadoedd ecwiti yn sydyn yn ystod y cyfnod dan sylw wrth i broblemau yn y sector ariannol symud i'r economi ehangach a chyfrannu at leihad aruthrol ym masnach y byd a chynhyrchu diwydiannol. Roedd marchnad ecwiti'r DU i lawr 29.3% dros y cyfnod. Roedd enillion o farchnadoedd ecwiti tramor hefyd yn wael er bod gwendid y bunt sterling wedi helpu rhywfaint ar fuddsoddwyr o'r DU: yn nhermau sterling, dirywiodd ecwiti Ewrop 31.1%, collodd y Marchnadoedd Newydd 26.3% a dioddefodd Asia- Datblygedig ostyngiad o 22.1%. Roedd effaith arian yn hynod o amlwg i fuddsoddwyr o'r DU yn yr UDA a Japan lle roedd gostyngiadau o bron i 30% mewn arian lleol yn trosglwyddo i ddirywiadau o 14.0% a 10.7% yn ôl eu trefn mewn sterling.

Problemau yn y sector ariannol oedd flaenaf yn ystod rhan gyntaf y cyfnod a chyrhaeddodd uchder newydd ym mis Medi gyda methdaliad Lehman Brothers yn yr UDA, a waethygodd yr argyfwng wrth i farchnadoedd credyd rewi. Esgynnodd LIBOR, sef y raddfa y mae banciau'n fodlon benthycio i'w gilydd arni, a rhoddodd marchnadoedd papur masnachol y gorau i weithredu. Ymatebodd Llywodraethau ar draws y byd i'r argyfwng drwy dorri cyfraddau llog i'w hisaf erioed, prynu rhannau mewn banciau mawr yr oedd eu sefyllfaoedd ariannol yn edrych yn fwyfwy ansicr ac, yn ddiweddarach, mae rhai wedi dechrau prynu bondiau o fanciau er mwyn eu hannog i fenthycio mwy - proses a elwir yn esmwytho meintiol. Mae ansicrwydd yn parhau i fodoli ynghylch a fydd cynlluniau achubol y Llywodraeth yn gweithio, gan nad yw'r rhan fwyaf o fesurau a gymerwyd wedi cael amser i weithio. Mae gwahanol wledydd hefyd wedi tueddu i ymateb mewn gwahanol ffyrdd. Mae'r Almaen, er enghraifft, yn canolbwyntio ar ddiwydiant tra bod graddfa'r argyfwng yn y DU cymaint fel nad oedd gan yr awdurdodau unrhyw ddewis ond ail-gyfalafu'r banciau yn uniongyrchol. Mae'r ysgogiad, fodd bynnag, yn debyg yn y rhan fwyaf o'r economïau mawr ac yn sylweddol oddeutu 3-4% o'r cynnyrch mewnwladol crynswth.

Er ein bod yn credu y bydd yn cymryd peth amser i'r economïau wella, y newyddion da yw bod y newidiadau angenrheidiol yn digwydd, gyda chyfraddau cynilo yn codi a diffygion masnachu yn disgyn yn sydyn. Mae'r gostyngiad mewn masnach, er ei fod yn ddychrynlyd, hefyd yn annhebygol o barhau yn absenoldeb dirywiad tebyg mewn defnydd. Ar ryw adeg, bydd storcrestri'n disgyn i lefel sy'n golygu bod yn rhaid i lefelau cynhyrchu godi.

Mae datblygiadau yn Tsieina hefyd yn galonogol gyda'r camau a gymerwyd i ysgogi'r economi eisoes yn cael rhywfaint o effaith. Mae prosiectau cyfalaf, a amharwyd arnynt yn 2007 pan oedd y llywodraeth yn ceisio arafu'r economi oherwydd pryderon am orboethi, wedi ailgychwyn ac mae benthyciadau banciau wedi esgyn. Credwn fod llywodraeth Tsieina mewn safle gwell na llawer o rai eraill i ysgogi ei heconomi gan fod y rhwystrau gwleidyddol ac ariannol yn llawer llai. Efallai y bydd adferiad yn yr economi yn digwydd ynghynt yn Tsieina nac yn unman.

Er ein bod yn credu mai gwelliant araf iawn sy'n wynebu rhannau eraill o economi'r byd, mae amryw o fesurau nawr yn awgrymu bod marchnadoedd yn masnachu yn agos neu yn is na'u lefelau gwerth yn y pen draw felly mae tystiolaeth bod hyn yn rhoi rhywfaint o gefnogaeth i fuddsoddwyr hirdymor. Os bydd y byd yn dechrau gwella, bydd bondiau corfforaethol yn gwella hefyd. Fodd bynnag, rydym yn pryderu am werth bondiau'r llywodraeth gan fod eu statws hafan ddiogel yn edrych yn ddrud iawn.

Ar lefel portffolio, rydym yn dal i ganolbwyntio'n bennaf ar ddadansoddi cwmnïau er mwyn sicrhau, cyn belled ag y gallwn, bod gan y busnesau yr ydym wedi buddsoddi ynddynt, y cryfder mantolen a'r nodweddion llif arian i oroesi'r dirywiad ac i gynnig potensial am werth hirdymor i'w cyfranddalwyr.

## Perfformiad (ar ôl didynnu ffioedd)

Dyma'r elw a gynhyrchodd y Cronfeydd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2009:

	1 flwyddyn %	3 blynedd % y fl	5 mlynedd % y fl
Y Gronfa Bensiwn Reoledig	-20.8	-6.5	3.7
<i>Cronfa Gronedig Ganolrif CAPS</i>	-20.5	-6.6	3.2
Y Gronfa Bensiwn Fynegrifol	-2.4	3.9	5.2
<i>FTA cysylltiedig â'r Llywodraeth dros 5 mlynedd</i>	-2.8	4.2	5.5

## Marchnadwyedd

Mae buddsoddiadau'n cynnwys unedau mewn cyfryngau buddsoddi casgliadol a reolir gan Baillie Gifford, ac ystyrir bod y daliadau'n werthadwy.

## Y Daliadau Mwyaf

Ar 31 Mawrth 2009, dyma'r deg daliad mwyaf, sy'n cynrychioli 28.3% o gyfanswm gwerth y Gronfa Bensiwn a Reolir:

	<b>% o'r Portffolio</b>
Cronfa Dwf Marchnadoedd Newydd Baillie Gifford	7.7
Cronfa Cwmnïau Cap Mawr Marchnadoedd Newydd Baillie Gifford	3.1
Cronfa Bondiau Tramor Baillie Gifford	2.7
Royal Dutch Shell	2.6
Grŵp BG	2.5
BGL	2.5
Vodafone	2.0
Total	1.9
Nestle R	1.7
Cronfa Cwmnïau Llai Prydain Baillie Gifford	1.6
	<b>28.3</b>

**Baillie Gifford Life Limited**  
**Carlton Square**  
**1 Greenside Row**  
**Edinburgh**  
**EH1 3AN**

**22 Mai 2009**



---

## CYNLLUN PENSIWN AELODAU CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

### DATGANIAD YR ACTIWARI – AM Y FLWYDDYN ARIANNOL HYD AT 31 MAWRTH 2009

#### **Asesiad Actiwaraidd.**

Cynhaliwyd asesiad actiwaraidd ffurfiol o'r Cynllun, i ddod i rym ar 1 Ebrill 2008, a'r prif amcan oedd gwneud argymhelliad i Ymddiriedolwyr y Cynllun ynghylch lefel briodol cyfradd cyfraniad y cyflogwr ar ôl y dyddiad hwnnw. Tra nodir yn y Rheolau, swm cyfraniadau aelodau, mae cyfradd cyfraniad y cyflogwr yn cael ei gyfrif fel canran cyflog sy'n ofynnol i gwrdd â'r gost er mwyn sicrhau y telir am fuddiannau'r Cynllun yn ystod gwasanaeth gweithredol â Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

#### **Dull**

Rhodddwyd gwerth ar y rhwymedigaethau y disgwylir iddynt gronni o dan y Cynllun yn ystod y tair blynedd ar ôl y dyddiad prisio ar y dyddiad hwnnw gan ddefnyddio'r dechneg actiwaraidd safonol a elwir yn *Ddull Rhagamcanu Unedau*. Mynegir *Cyfradd Cyfraniad Safonol* y Dull Rhagamcanu Unedau fel gwerth y buddiannau a gronnir yn ystod y cyfnod rheoli wedi ei rannu â gwerth presennol enillion aelodau yn ystod y cyfnod hwn. Mae'r gyfradd hon yn dibynnu ar ddsbarthiad aelodau'r Cynllun yn ôl oedran a rhyw. Er mwyn pennu cyfradd cyfraniad y Cyflogwr, mae gwerth y rhwymedigaethau a gronnir hyd at y dyddiad prisio yn cael ei gymharu â gwerth yr asedau sydd wedi'u cronni hyd at y dyddiad hwn. Adlewyrchir unrhyw warged (neu ddiffyg) yng ngwerth yr asedau sy'n fwy (neu'n llai) na'r rhwymedigaethau a gronnwyd wrth addasu'r Gyfradd Cyfraniad Safonol.

#### **Tybiaethau**

Er mwyn cyfrifo'r gost, mae'n rhaid gwneud tybiaethau actiwaraidd penodol. Mae'r Gyfradd Cyfraniad Safonol yn golygu y byddai'n ddigonol cyllido'r buddiannau a gronnir ar ôl y dyddiad prisio os yw'r profiad yn unol â'r tybiaethau a wnaethpwyd. Efallai y bydd angen addasu'r Gyfradd Cyfraniad Safonol yn y dyfodol i ystyried gwyradau rhwng profiadau'r Cynllun a'r tybiaethau cyllid.

Y prif dybiaethau a ddefnyddir i roi gwerth ar rwymedigaethau

---

Adenillion buddsoddiad, net o dreuliau, yn fwy na chwyddiant cyflog 2% y flwyddyn

---

Adenillion buddsoddiad, net o dreuliau, yn fwy na chwyddiant pris 3½% y flwyddyn

---

Marwolaeth – Tablau safonol marwolaethau a gyhoeddir gan y proffesiwn actiwaraidd (tblau "PMA 92" gyda gwelliannau i'r dyfodol yn unol â phrif ragamcanion yn seiliedig ar boblogaeth 2006)

---

Nodir manylion pellach am y dulliau a'r tybiaethau a ddefnyddir yn yr asesiad actiwaraidd dyddiedig a gynhaliwyd ar 1 Ebrill 2008, dyddiedig 26 Mawrth 2009 yn yr adroddiad.

## **Cyfradd Cyfraniadau**

Mae Aelodau'n talu cyfraniadau cyfwerth â 10% o'u cyflog pensiynadwy os ydynt yn cronni un rhan o ddeugain o'u tâl pensiynadwy am bob blwyddyn o wasanaeth, neu 6% o'u tâl pensiynadwy os ydynt yn cronni un rhan o hanner cant. Gan ddefnyddio'r dull a'r tybiaethau uchod, yr asesiad ar gyfer cyfraniad y cyflogwr oedd 23.8% o gyflog pensiynadwy o 1 Ebrill 2009 ymlaen. Mae'r gyfradd hon yn cynnwys darpariaeth lawn o ran budd-dâl marwolaeth, gan gynnwys cynnydd yn y buddiannau hyn ers i'r cynllun ddechrau, a hefyd lwfans ar gyfer costau gweinyddu.

## **Diogelwch yr Hawliau Arfaethedig**

Yn fy marn i, mae adnoddau'r cynllun yn debygol, mewn sefyllfa o ddigwyddiadau normal, o gwrdd â chyfrifoldebau cyflawn y cynllun fel y maent. Wrth roi'r farn hon yr wyf wedi cymryd y bydd cyfraniadau'r cyflogwr yn cael eu talu i'r Cynllun fel y disgrifir yn y paragraff sy'n dwyn y teitl "Cyfradd Cyfraniadau" (yn amodol ar ei adolygu ym mhrisiad 2011), yn ychwanegol at gyfraniadau Aelodau ar y graddfeydd a ddisgrifir yn y paragraff "Cyfradd Cyfraniadau."

## **Yr Asesiad Actiwaraid Nesaf**

Mae prisiad actiwaraid ffurfiol nesaf y Cynllun yn cael ei wneud gyda dyddiad gweithredol o 1 Ebrill 2011 a chaiff y canlyniadau eu hystyried yn ddiweddarach yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Prif bwrpas y prisiad hwnnw yw asesu a yw graddfa cyfraniadau'r cyflogwr a argymhellwyd yn ddigonol, gan ystyried yr holl ffactorau perthnasol ers y prisiad blaenorol.

D G Ballantine  
Cymrawd y Gyfadran Actiwari  
29 Mai 2009

Adran Actiwari'r Llywodraeth  
Tŷ Finlaison  
15-17 Stryd Furnival  
Llundain  
EC4A 1AB

## DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R YMDDIRIEDOLWYR

Yr Ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am y datganiadau ariannol. Nid yw'n ofynnol trwy statud i'r Ymddiriedolwyr gydymffurfio â rheoliadau cynllun pensiwn, ond maent wedi cytuno i wneud hynny ble bynnag bo'n bosibl oherwydd bod hynny'n arfer da. Mae'r rheoliadau yn gofyn fod yr Ymddiriedolwyr yn sicrhau fod datganiadau ariannol archwiliedig ar gael i aelodau'r cynllun, rhai sy'n cael budd ohono a rhai partïon eraill ar gyfer pob blwyddyn Cynllun sy'n:

- Rhoi darlun cywir a theg o drafodion ariannol y cynllun yn ystod blwyddyn y cynllun ac o swm a sefyllfa'r asedau a'r cyfrifoldebau ar ddiwedd y flwyddyn honno, ar wahân i'r cyfrifoldebau i dalu pensiynau a buddion ar ôl diwedd blwyddyn y cynllun, ac
- Yn cynnwys y wybodaeth benodol yn yr Atodlen i'r Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gofyniad i gael Cyfrifon Archwiliedig a Datganiad gan yr Archwilydd) 1996, gan gynnwys datganiad a yw'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi yn unol â'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir 'Adroddiadau Ariannol o Gynlluniau Pensiwn'.

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi goruchwyllo paratoi'r datganiadau ariannol ac maent wedi cytuno polisïau cyfrifo addas, sydd i'w gweithredu'n gyson gan wneud unrhyw amcangyfrifon a barnedigaethau ar sail resymol a doeth.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am sicrhau ymlyniaeth gyda rheolau'r cynllun ac argymhellion yr Actiwari gyda golwg ar gyfraniadau sy'n daladwy tuag at neu gan, neu ar ran, y cyflogwr ac aelodau gweithredol y cynllun a'r dyddiadau y mae cyfraniadau o'r fath i'w talu. Mae'r Ymddiriedolwyr hefyd yn gyfrifol am gadw cofnodion o gyfraniadau a dderbyniwyd gyda golwg ar unrhyw aelod gweithredol o'r cynllun ac am sicrhau fod cyfraniadau yn cael eu gwneud i'r Cynllun yn unol â'r argymhellion, o Actiwari'r Cynllun.

Hefyd mae gan yr Ymddiriedolwyr gyfrifoldeb cyffredinol dros sicrhau bod cofnodion cyfrifo digonol yn cael eu cadw ac am gymryd y camau sy'n rhesymol agored iddynt i ddiogelu asedau'r cynllun ac i atal a darganfod unrhyw dwyll neu anghysonderau eraill, gan gynnwys cynnal dulliau rheoli mewnol priodol.

Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
**Crynodeb y Cyfraniadau a dalwyd yn y flwyddyn**

Dyma'r cyfraniadau a dalwyd yn ystod y flwyddyn i'r cynllun gan y Cyflogwr yn unol ag argymhellion yr actiwari:

	2008-09 £	2007-08 £
Cyfraniadau arferol y Cyflogwr	941,906	786,373
Cyfraniadau arferol y Gweithiwr Cyflogedig	398,359	334,798
Cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol y Gweithiwr i brynu Blynnyddoedd Ychwanegol	11,340	7,035
	<hr/>	<hr/>
Cyfanswm Cyfraniadau	1,351,605	1,128,206
	<hr/>	<hr/>

**William Graham**  
**Aelod Cynulliad**  
**Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr**

**Rosemary Butler**  
**Aelod Cynulliad**  
**Ymddiriedolwr**

(ar ran yr Ymddiriedolwyr)

**Dyddiad:** 12 Hydref 2009

Cysoni'r cyfraniadau a dalwyd, a welir uchod, a'r cyfraniadau a nodwyd yn y datganiadau ariannol:

	2008-09 £	2007-08 £
Cyfraniadau a dalwyd:	1,351,605	1,128,206
Llai Dyledwr agoriadol:	(157,374)	(89,571)
Ynghyd â'r Dyledwr cloi:	<hr/> 109,678	<hr/> 157,374
Cyfraniadau a nodwyd yn y datganiadau ariannol:	<hr/> 1,303,909	<hr/> 1,196,009

## **Tystysgrif ac Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol i Aelodau Cynllun Pensiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Datganiad yr Archwilydd Annibynnol o Gyfraniadau, dan Reoliad 4 y Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gofyniad i gael Cyfrifon Archwilledig a Datganiad gan yr Archwilydd) 1996, i Ymddiriedolwyr ac Aelodau Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru.**

Yr wyf wedi archwilio'r crynodeb o gyfraniadau i Gynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru am flwyddyn y cynllun yn dod i ben 31 Mawrth 2009, a nodir ar dudalen 14.

### **Cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr a'r Archwilydd**

Fel y disgrifir ar dudalen 13 mae Ymddiriedolwyr y cynllun yn gyfrifol am sicrhau bod atodlen o gyfraniadau wedi'i pharatoi, ei chynnal ac o bryd i'w gilydd, ei hadolygu, sy'n nodi'r cyfraddau a'r dyddiadau dyledus ar rai cyfraniadau sy'n daladwy tuag at y cynllun gan neu ar ran y cyflogwr ac aelodau gweithredol y cynllun. Mae gan yr Ymddiriedolwyr hefyd gyfrifoldeb am gadw cofnodion o ran cyfraniadau a dderbyniwyd mewn perthynas ag unrhyw aelod gweithredol o'r Cynllun ac am fonitro a yw cyfraniadau yn cael eu gwneud i'r cynllun gan y Cyflogwr yn unol ag argymhellion yr Actiwari fel y nodir yn Natganiad yr Actiwari ar dudalennau 11 a 12. Fy nghyfrifoldeb i ydyw darparu datganiad am gyfraniadau a dalwyd yn unol ag argymhellion yr Actiwari ac i gyfleu fy marn i chi.

### **Sail y datganiad am gyfraniadau**

Fe wnes gynllunio a pherfformio fy ngwaith er mwyn cael y wybodaeth a'r esboniadau a ystyriwn yn angenrheidiol er mwyn rhoi sicrwydd rhesymol fod y cyfraniadau a nodwyd yn y crynodeb o gyfraniadau wedi'u talu yn unol â'r gofynion perthnasol. I'r perwyl hwn yr oedd y gwaith a wneuthum yn cynnwys, archwilio, ar sail prawf, dystiolaeth berthnasol i'r symiau o gyfraniadau a dalwyd i'r cynllun ac amseru'r taliadau hynny o dan yr atodlen o gyfraniadau. Mae gofyn i'm datganiad am gyfraniadau gyfeirio at yr achosion hynny o beidio cydymffurfio â'r atodlen o gyfraniadau, sy'n dod i'm sylw yn ystod fy ngwaith.

### **Datganiad am gyfraniadau**

Yn fy marn i mae cyfraniadau i'r cynllun yn y flwyddyn a ddaw i ben 31 Mawrth 2009, fel yr adroddwyd yn y crynodeb o gyfraniadau wedi'u talu yn unol â Datganiad yr Actiwari a ardystiwyd gan Actiwari'r Cynllun ar 29 Mai 2009.

Jeremy Colman  
Archwilydd Cyffredinol Cymru  
27 Hydref 2009

Swyddfa Archwilio Cymru  
24 Cathedral Road  
Caerdydd  
CF11 9LJ

Cyfrifoldeb y Cynulliad yw cynnal a chadw a sicrhau cywirdeb gwefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru; nid yw'r gwaith y mae'r archwilydd yn ymgymryd ag ef yn ystyried y materion hyn ac, oherwydd hyn, nid yw'r archwilydd yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a allai fod wedi'u gwneud i'r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno am y tro cyntaf ar y wefan.

## **DATGANIAD AR REOLAETH FEWNOL**

### **Cwmpas y Cyfrifoldeb**

Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb fel Ymddiriedolwyr i sicrhau bod system reolaeth fewnol effeithiol yn cael ei chynnal a'i gweithredu sy'n helpu i gyflawni amcanion y Cynllun a hefyd yn diogelu asedau'r cynllun.

### **Diben y System Reolaeth Fewnol**

Gall y system ddarparu sicrwydd rhesymol, ond nid sicrwydd llwyr, bod asedau yn cael eu diogelu, bod trafodion yn cael eu hawdurdodi a'u cofnodi'n gywir a bod camgymeriadau neu afreoleidd-dra difrifol yn cael eu hatal neu'n cael eu datgelu yn gyflym.

Mae'r system reolaeth fewnol yn seiliedig ar broses sy'n cael ei chynnal yn rheolaidd i geisio nodi'r prif risgiau sy'n bygwth nodau ac amcanion Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, i bwysu a mesur natur a maint y risgiau hynny ac i'w rheoli, Mae wedi'i seilio ar fframwaith o wybodaeth reoli reolaidd, gan gynnwys cyngor annibynnol gan gynghorwyr proffesiynol y Gronfa, gweithdrefnau gweinyddol priodol a system ddirprwyo ac atebolrwydd. Roedd yr holl weithdrefnau priodol yn eu lle yn ystod 2008-09.

### **Y Gallu i Ymdopi â Risg**

Mae'r cyfrifoldeb o weinyddu a chadw cyfrifon o ddydd i ddydd wedi'i ddirprwyo i'r Ysgrifenyddiaeth ac mae'r Ymddiriedolwyr yn dibynnu ar weithdrefnau rheolaeth fewnol Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru Cynulliad, sy'n rhan o'r system reolaeth fewnol a weithredir gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

### **Fframwaith Risg a Rheoli**

Mae angen adroddiadau rheolaidd arnom gan yr ysgrifenyddiaeth ar y camau y maent yn eu cymryd er mwyn rheoli risgiau o fewn eu meysydd cyfrifoldeb gan gynnwys adroddiadau ar gynnydd.

Yn ystod 2008-09, rydym wedi:

- cadw cofrestr risg sy'n cael ei hadolygu'n rheolaidd ym mhob un o gyfarfodydd yr Ymddiriedolwyr;
- trefnu bod yr ysgrifenyddiaeth yn paratoi adroddiadau ar weithgarwch rheolaeth fewnol; ac
- wedi adolygu'r adroddiad annibynnol ar Reolaeth Fewnol Baillie Gifford yn ystod y cyfnod hyd at 30 Ebrill 2008 er mwyn rhoi sicrwydd bod rheolaeth fewnol rheolwr y gronfa yn bodloni'r safon ofynnol.
- derbyn adroddiadau chwarterol gan Baillie Gifford sy'n cael eu trafod yng nghyfarfodydd yr Ymddiriedolwyr. Mae'r adroddiadau hyn yn cynnwys adroddiad rheolwr cyllid; manylion perfformiad y buddsoddiad; rhestr o ddaliadau cyfredol; a gwybodaeth cyfrifo a llywodraethu corfforaethol.
- adolygu effeithiolrwydd parhaus y systemau diogelu gwybodaeth well a roddwyd ar waith yn ystod 2007-08.

## **Adolygu Effeithiolrwydd**

Mae Archwilwyr Mewnol y Comisiwn yn ein helpu i ddatblygu a chynnal y system rheolaeth fewnol ac mae gwaith yr archwilwyr allanol yn sail i'n hadolygiad o effeithlonrwydd y system hon. Caiff y sylwadau a wnaed gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac mewn adroddiadau eraill eu hystyried.

**William Graham**  
**Aelod Cynulliad**  
**Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr**

(Ar ran yr Ymddiriedolwyr)

**Dyddiad:** 12 Hydref 2009

**Rosemary Butler**  
**Aelod Cynulliad**  
**Ymddiriedolwr**

## **Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i Ymddiriedolwyr ac Aelodau Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Rwy'n tystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2009, sy'n cynnwys Cronfa Gyfrif, y Datganiad Asedau Net a'r nodiadau cysylltiedig, sydd wedi'u paratoi ar sail y polisiau cyfrifo a nodir yn y nodiadau cysylltiedig.

### **Cyfrifoldebau arbennig yr Ymddiriedolwyr a'r Archwilydd**

Fel y disgrifir yn y Datganiad o gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr, mae Ymddiriedolwyr y cynllun yn gyfrifol am gael adroddiad blynyddol, gan gynnwys datganiadau ariannol wedi'u harchwilio a'u paratoi'n unol â chyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig. (Ymarferion Cyfrifyddu Derbyniol Cyffredinol y Deyrnas Unedig)

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau ariannol yn unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol a gofynion rheolaethol a Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU ac Iwerddon).

Cyflwynaf i chi fy marn a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg ac a ydynt yn cynnwys y wybodaeth a nodir yn yr atodlen i Reoliadau Cynlluniau Pensiynau Galwedigaethol (Gofyniad i dderbyn Cyfrifon Archwiliedig a Datganiad gan yr Archwilydd) 1996 a wnaed o dan Ddeddf Pensiynau 1995. Byddaf hefyd yn dweud wrthyf os nad wyf, yn fy marn i, wedi cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad neu os nad yw'r wybodaeth y gofynnir amdani gan y gyfraith yn cael ei datgelu.

Rwy'n adolygu a yw'r datganiad ar dudalennau 16 i 17 yn adlewyrchu cydymffurfiaeth yr Ymddiriedolwyr â chyfarwyddyd Trysorlys Ei Mawrhydi ac rwy'n nodi'r ffaith os nad yw'n bodloni'r gofynion a nodir gan y Trysorlys. Nid yw'n ofynnol fy mod yn ystyried a yw'r Datganiad yn mynd i'r afael â phob risg a rheol. Nid yw'n ofynnol chwaith fy mod yn ffurfio barn ar effeithiolrwydd gweithdrefnau llywodraethu corfforaethol y Cynllun na'i weithdrefnau risg a rheoli. Rwyf wedi darllen y wybodaeth arall yn adroddiad yr Ymddiriedolwyr ac wedi ystyried y goblygiadau o ran fy adroddiad os ydwyf yn dod yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau amlwg neu anghysonderau difrifol o fewn y datganiadau ariannol. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys Adroddiad yr Ymddiriedolwyr, yr Adroddiad Buddsoddi, Datganiad yr Actiwari, yr atodlen o gyfraniadau a'r Dystysgrif Actiwari, y Datganiad Cydymffurfio a Gwybodaeth yr Aelodau. Nid yw fy nghyfrifoldebau'n ymestyn i unrhyw wybodaeth arall.

### **Yr hyn sy'n sail i farn yr archwiliad a'r datganiad ynghylch cyfraniadau**

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â Safonau Archwilio'r Deyrnas Unedig ac Iwerddon a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae archwiliad yn cynnwys ymchwiliad, fel prawf, i dystiolaeth sy'n berthnasol i'r symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon a'r dyfarniadau arwyddocaol a wnaed gan, neu ar ran, yr ymddiriedolwyr wrth baratoi'r datganiadau ariannol, ac a yw'r polisiau cyfrifo yn briodol i amgylchiadau'r Cynllun, yn cael eu gweithredu'n gyson a'u datgelu'n ddigonol.

Cynlluniais a chynhaliais fy archwiliad er mwyn casglu'r holl wybodaeth a'r esboniadau a oedd yn angenrheidiol yn fy nhyb i er mwyn imi gael tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd o gamddatganiadau difrifol, wedi'u hachosi gan dwyll neu drwy afreoleidd-dra neu gangymeriad arall. Wrth ffurfio fy marn, rwyf hefyd



wedi pwysu a mesur pa mor ddigonol y cafodd y wybodaeth ei chyflwyno yn y datganiadau ariannol.

## Barn

Yn fy marn i mae'r datganiadau ariannol

- yn rhoi darlun cywir a theg ar drafodion ariannol y Cynllun yn unol ag Ymarferion Cyfrifyddu Derbyniol Cyffredinol y Deyrnas Unedig ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2009 ac ar swm a sefyllfa ei asedau a'i rwymedigaethau ar y dyddiad hwnnw, ac eithrio rhwymedigaethau i dalu pensiynau a buddiannau ar ôl diwedd y flwyddyn.
- Maent yn cynnwys y wybodaeth a nodir yn Rheoliad 3 a'r Atodlen i Reoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gofyniad i dderbyn Cyfrifon Archwiliedig a Datganiad gan yr Archwilydd) 1996.

Jeremy Colman  
Archwilydd Cyffredinol Cymru  
27 Hydref 2008

Swyddfa Archwilio Cymru  
24 Cathedral Road  
Caerdydd  
CF11 9LJ

Cyfrifoldeb y Cynulliad yw cynnal a chadw a sicrhau cywirdeb gwefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru; nid yw'r gwaith y mae'r archwilydd yn ymgymryd ag ef yn ystyried y materion hyn ac, oherwydd hyn, nid yw'r archwilydd yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a allai fod wedi'u gwneud i'r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno am y tro cyntaf ar y wefan.

# Cyfrifon Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2009

## Cyfrif y Gronfa

		2008-09	2007-08
<b>Incwm y Cynllun</b>			
	Nodiadau	£	£
Cyfraniadau i'w derbyn	4	1,303,909	1,196,009
Trosglwyddiadau Unigol i Mewn		9,840	77,954
Llog Banc a Dderbyniwyd		286	899
		<hr/>	<hr/>
		1,314,035	1,274,862
<b>Gwariant y Cynllun</b>			
Budd-daliadau sy'n Daladwy	5	89,226	136,209
Ffioedd Proffesiynol	6	55,170	27,320
Costau Gweinyddu		1,633	4,127
		<hr/>	<hr/>
		146,029	167,656
<b>Ychwanegiadau Net o drafodion ag Aelodau</b>		<hr/>	<hr/>
		1,168,006	1,107,206
<b>Buddsoddiadau</b>			
Newid i werth marchnad buddsoddiadau	7	(2,041,204)	(68,031)
Llog Arian Cadw	8	36,219	37,945
		<hr/>	<hr/>
<b>Cynnydd Net yn y gronfa yn ystod y flwyddyn</b>		(836,979)	1,077,120
<b>Asedau Net y cynllun ar 1 Ebrill</b>		11,350,332	10,273,212
<b>Asedau Net y cynllun ar 31 Mawrth</b>		<hr/> <hr/>	<hr/> <hr/>
		<b>10,513,353</b>	<b>11,350,332</b>

## Datganiad Asedau Net

		Ar 31 Mawrth 2009	Ar 31 Mawrth 2008
		£	£
<b>Buddsoddiadau</b>			
Cronfa Reoledig	7	7,712,853	9,736,354
Cronfa Bensiwn Fynegrifol	7	960,059	779,924
Arian Cadw	8	1,750,062	681,832
<b>Asedau Presennol</b>	9	116,433	167,594
Rhwymedigaethau	10	(26,054)	(15,372)
		<hr/>	<hr/>
<b>Asedau Net y cynllun ar 31 Mawrth</b>		<b>10,513,353</b>	<b>11,350,332</b>

Dim ond crynhoi trafodion ac asedau net y cynllun mae'r cyfrifon ac nid ydynt yn ystyried rhwymedigaethau i dalu pensiynau a buddion eraill ar ôl diwedd blwyddyn y cynllun.

Cymeradwywyd ar ran yr Ymddiriedolwyr ar 12 Hydref 2009 gan:

William Graham AC  
Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr

Rosemary Butler AC  
Ymddiriedolwr

Mae'r nodiadau ar dudalennau 21 i 23 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

## Nodiadau i'r Cyfrifon

### 1. Y Sail ar gyfer Paratoi.

Mae'r cyfrifon hyn wedi'u paratoi yn unol â'r Datganiad o Arferion a Argymhellir ar Adroddiadau Ariannol Cyfrifon Cynllun Pensiwn, a ddiwygiwyd ym mis Mai 2007.

Mae'r cyfrifon yn crynhoi trafodion ac asedau net y cynllun. Nid ydynt yn ystyried rhwymedigaethau i dalu pensiynau a buddiannau eraill yn y dyfodol.

Mae'r adroddiad actiwaraidd yn ystyried y rhwymedigaethau hyn (gellir gweld datganiad actiwaraidd ar dudalen 11 a 12).

### 2. Polisiâu Cyfrifo

Prif bolisiâu actiwaraidd y cynllun yw:

- Cyfraniadau arferol, cyfraniadau i brynu blynyddoedd ychwanegol a chyfrifir am gyfraniadau gwirfoddol ychwanegol yn y flwyddyn y maent yn ddyledus.
- Cyfrifir buddiannau ar y diwrnod y maent yn ddyledus a chyfrifir ad-daliadau cyfraniadau pan fyddant yn cael eu gwneud.
- Mae trosglwyddo gwerthoedd o un cynllun pensiwn i un arall yn cynrychioli'r symiau a gafodd eu derbyn a'u talu yn ystod y flwyddyn i aelodau sydd wedi ymuno â'r Gronfa neu ei gadael.
- Cyfrifir yr holl wariant arall yn y cyfnod sy'n berthnasol iddo.
- Nodir buddsoddiadau ar werth y farchnad ar ddiwedd y dydd ar 31 Mawrth bob blwyddyn. Gall hyn fod yn wahanol i'r pris a ddefnyddir ar gyfer prynu a gwerthu unedau.

### 3. Ysgrifenyddiaeth

Mae'r gost o ddarparu staff ar gyfer ysgrifenyddiaeth y Cynllun yn parhau i gael ei dalu'n uniongyrchol gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru. O dan amodau'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth y cytunwyd arno rhwng y Comisiwn a'r Ymddiriedolwyr, amcangyfrifir mai £67,000 (2007-08 £61,500) oedd y gost ar gyfer cyfnod y cyfrifon hyn, ac fe'i talwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

### 4. Cyfraniadau i'w Derbynn

Mae cyfraniadau'n cynnwys:

	2008-09	2007-08
	£	£
Cyflogwr: cyfraniadau arferol	908,280	833,960
Aelodau: cyfraniadau arferol	383,992	354,897
: prynu Blynyddoedd Ychwanegol	11,637	7,152
	<u>1,303,909</u>	<u>1,196,009</u>

Mae Aelodau'n cyfrannu 10% i Gronni buddion yn seiliedig ar un rhan o ddeugain a 6% i Gronni buddion yn seiliedig ar un rhan o hanner cant gyda'r Cynulliad Cenedlaethol yn cyfrannu 23%o gyflogau pensiynadwy i'r Cynllun.

Cynyddodd y blynyddoedd ychwanegol gan i un aelod brynu blynyddoedd ychwanegol drwy gyfandaliad yn ystod y flwyddyn .

## 5. Budd-daliadau sy'n Daladwy

	2008-09	2007-08
	£	£
Pensiwn	89,226	82,522
Budd-daliadau Ymddeol - Cyfranddaliadau	-	53,687
Cyfandaliad Budd-daliadau Marwolaeth	-	-
	<u>89,226</u>	<u>136,209</u>

## 6. Ffioedd Proffesiynol

	2008-09	2007-08
	£	£
Ffioedd Actiwaraidd	33,389	14,638
Ffi Archwiliad	9,875	8,813
Ffioedd Cyfreithiol	11,906	3,869
	<u>55,170</u>	<u>27,320</u>

Cynyddodd ffioedd actiwaraidd oherwydd costau'r prisiad tair blynedd ar 1 Ebrill 2008 tra bod y cynnydd mewn ffioedd cyfreithiol yn deillio o'r angen am gyngor cyfreithiol penodol ychwanegol oherwydd y newidiadau deddfwriaethol a gofynion yr Ymddiriedolwyr. Mae ffioedd actiwaraidd yn cynnwys cost cael data FRS17 i'r Comisiwn gan actiwari'r Cynllun. Mae'r gost yn £5,790 (2007-08 £3,082)

## 7. Buddsoddiadau

Delir yr holl fuddsoddiadau yng Nghronfa Bensiwn Reoledig Baillie Gifford.

### a) Cronfa Bensiwn Reoledig Baillie Gifford

		31 Mawrth 2009	31 Mawrth 2008
	Unedau	£	£
Gwerth y Farchnad ar 1 Ebrill	2,251,336	9,736,354	9,821,230
Prisiau prynu	-	-	-
Gwarediadau	-	-	-
Newid yng ngwerth y farchnad		(2,023,501)	(84,876)
Gwerth y Farchnad ar 31 Mawrth	2,251,336	<u>7,712,853</u>	<u>9,736,354</u>
Costau ar 31 Mawrth		6,842,442	6,842,442

### b) Cronfa Bensiwn Mynegrifol Baillie Gifford

		31 Mawrth 2009	31 Mawrth 2008
	Unedau	£	£
Gwerth y Farchnad ar 1 Ebrill	482,447	779,924	-
Prisiau prynu	126,341	197,838	763,079
Gwarediadau	-	-	-
Newid yng ngwerth y farchnad		(17,703)	16,845
Gwerth y Farchnad ar 31 Mawrth	608,788	<u>960,059</u>	<u>779,924</u>
Costau ar 31 Mawrth		960,917	763,079

Dangosir dosraniad asedau yn Adroddiad Buddsoddi y Rheolwyr Cronfa ar dudalen 8.

Ni wneir dosraniadau o'r gronfa, gyda'r incwm ac unrhyw dreth a adferir yn cael ei gyfuno, gan gynyddu gwerth yr unedau.

Mae'r ffioedd rheoli yn 0.45% y flwyddyn ar gyfer y Gronfa Bensiwn Reoledig ac yn 0.25% ar gyfer y Gronfa Bensiwn Fynegrifol. Cyfanswm y treuliau, gan gynnwys costau masnachu uniongyrchol yw 0.53% ar gyfer y Gronfa Bensiwn Reoledig ac 0.27% ar gyfer y gronfa Bensiwn Fynegrifol a chânt eu tynnu o werth y cronfeydd a'u hadlewyrchu ym mhris uned y cronfeydd.

## 8. Arian Cadw

	31 Mawrth 2009 £	31 Mawrth 2008 £
Arian cadw ar 31 Mawrth	1,713,924	644,418
Ychwanegu'r llog ar gyfer y flwyddyn	36,219	37,945
	<u>1,750,143</u>	<u>682,363</u>
Llai'r llog na dderbyniwyd eto	(81)	(531)
Cyfanswm yr Arian Cadw	<u>1,750,062</u>	<u>681,832</u>

## 9. Asedau a Rhwymedigaethau Presennol

	31 Mawrth 2009 £	31 Mawrth 2008 £
Arian Parod yn y Banc	6,256	9,105
Cyfraniadau sy'n ddyledus gan y cyflogwr	109,678	157,374
Dyledwyr eraill a rhagdaliadau	499	1,115
	<u>116,433</u>	<u>167,594</u>

Mae 'cyfraniadau sy'n ddyledus gan y cyflogwr' yn cyfeirio at fis Mawrth 2009 ac fe'u talwyd yn llawn i'r cynllun cyn y terfyn amser statudol.

## 10. Rhwymedigaethau presennol

	<u>31 Mawrth</u> <u>2009</u> £	<u>31 Mawrth</u> <u>2008</u> £
Credydwyr: symiau'n daladwy o fewn blwyddyn	(26,054)	(15,372)
	<u>(26,054)</u>	<u>(15,372)</u>

Mae 'Credydwyr: symiau'n daladwy o fewn blwyddyn' yn cynrychioli rhwymedigaethau am waith a wnaed, lle na dderbyniwyd yr anfonebau erbyn diwedd y flwyddyn.

## 11. Trafodion Partïon Cysylltiedig

Yn ystod cyfnod y cyfrif mae'r Cynllun wedi cael trafodion materol gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru, a ystyrir fel parti cysylltiedig. Datgelir y trafodion hyn yn Nodyn 4 y cyfrifon hyn.

Nid oes yr un o Ymddiriedolwyr, Rheolwyr y Cynllun, staff rheoli allweddol neu bartïon cysylltiedig eraill wedi ymgymryd ag unrhyw drafodion materol gyda'r Cynllun yn ystod y flwyddyn.

## **Datganiad Cydymffurfio**

Diben y datganiad cydymffurfio hwn yw nodi'r wybodaeth ychwanegol sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith.

## **Beth yw Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru?**

Mae Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn darparu buddiannau i Aelodau'r Cynulliad ac i Ddeiliaid Swyddi. Mae pob Aelod o'r Cynulliad yn aelodau o'r Cynllun o'r dyddiad y maent yn ymuno â'r Cynulliad, oni bai eu bod yn benodol yn dewis peidio â gwneud hynny.

Dyma brif fuddiannau'r cynllun:

- pensiwn o un rhan o ddeugain neu un rhan o bum deg o gyflog terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth a roddwyd erbyn ymddeol yn 65 oed;
- pensiwn cynnar i aelodau a ymunodd cyn 6 Ebrill 2006, sy'n daladwy pan fyddant yn ymddeol cyn y byddant yn 65 oed, os yw'r aelod wedi cyrraedd 50 oed (gellir lleihau'r pensiwn yn ôl oed/hyd gwasanaeth);
- pensiwn cynnar i aelodau a ymunodd ar ôl 6 Ebrill 2006, sy'n daladwy pan fyddant yn ymddeol cyn y byddant yn 65 oed, os yw'r aelod wedi cyrraedd 55 oed (caiff y pensiwn ei leihau);
- pensiwn wrth ymddeol ar unrhyw adeg oherwydd gwaeledd;
- pensiwn gwr/gwraig weddw cyfwerth â 5ed/8fed o bensiwn yr aelod (yn seiliedig ar ddarpar wasanaeth os yw'n marw tra bo'n Aelod o'r Cynulliad);
- pensiwn plant (ar gyfradd o chwarter pensiwn sylfaenol neu bensiwn tebygol yr Aelod ar gyfer un plentyn neu dair rhan o wyth ar gyfer dau blentyn neu fwy);
- mae pensiynau talu yn cael eu mynegrifo i'r newidiadau yn y Mynegai Prisiau Adwerthu;
- rhodd cyfandal marw yn y gwaith sy'n gyfwerth â chyflog pedair blynedd gyda darpariaeth ar gyfer mwy nag un enwebai;

Mae'r buddiannau dewisol yn cynnwys:

- prynu blynyddoedd ychwanegol;
- trosglwyddo hawliau pensiwn (i mewn ac allan o'r cynllun);

## **Perthynas â Chynllun Ymddeol y Wladwriaeth**

- Mae Cynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad wedi'i gontractio o Ail Gynllun Pensiwn y Wladwriaeth a bydd Aelodau felly'n talu cyfradd is o gyfraniad Yswiriant Cenedlaethol.
- Mae'r pensiwn y mae Aelodau sydd wedi ymddeol yn ei dderbyn o'r Cynllun hwn yn ychwanegol i unrhyw hawl i arian o Gynllun Ymddeol y Wladwriaeth.

## Sut y Penodir Ymddiriedolwyr y Cynllun

- Mae Atodlen 1 o Reolau'r Cynllun yn nodi na fydd 'mwy' na 6 Ymddiriedolwr.
- Ar unrhyw adeg, bydd un o'r chwe Ymddiriedolwr yn bensiynwr, os oes unrhyw un yn fodlon sefyll. Lle ceir mwy nag un enwebiad, cynhelir balot i ddewis yr unigolyn â'r nifer uchaf o bleidleisiau ymhlith y pensiynwyr sy'n aelodau o'r Cynllun.
- Dim ond Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru y gellir ei benodi fel Ymddiriedolwr, ond ni fydd Ymddiriedolwr yn peidio â bod yn Ymddiriedolwr os yw'n rhoi'r gorau i fod yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Gall Cynulliad Cenedlaethol Cymru benodi neu ddiswyddo unrhyw Ymddiriedolwr i neu o'r swydd honno. Gall Ymddiriedolwr ymddiswyddo o'r swydd trwy gyflwyno rhybudd ysgrifenedig i Lywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## Cyfarfodydd Ymddiriedolwyr

Fel rheol, cynhelir cyfarfodydd yr Ymddiriedolwyr unwaith yn ystod pob un o sesiynau'r Cynulliad, ac weithiau mae cyfarfodydd ychwanegol at ddibenion penodol. Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd 3 chyfarfod arferol yr Ymddiriedolwyr.

Gall yr Ymddiriedolwyr weithredu gyda mwyafrif o'r rhai sy'n bresennol mewn unrhyw gyfarfod o'r Ymddiriedolwyr lle ceir cworwm a'r cworwm ar gyfer unrhyw gyfarfod o'r Ymddiriedolwyr fydd tri.

## Penderfyniad ynghylch Anghydfod Mewnol

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi gweithredu'r Penderfyniad ynghylch Anghydfod Mewnol yn unol â gofynion Deddf Pensiynau 1995. Gellir cael manylion y weithdrefn gan y Swyddfa Ffioedd.

## Cynghorwyr y Cynllun a Benodwyd gan yr Ymddiriedolwyr Mewn Cysylltiad â'r Gronfa ar 31 Mawrth 2009

Actiwari	Grant Ballantine o Adran Actiwari'r Llywodraeth
Archwilydd	Archwilydd Cyffredinol Cymru
Bancwyr	Banc Barclays ccc
Rheolwr Buddsoddi	Baillie Gifford Life Cyfyngedig
Cynghorwr Cyfreithiol	Eversheds
Cyfrifyddion y Cynllun	Ysgrifenyddiaeth y Cynllun, Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Ni fu newidiadau i'r penodiadau ers y cyfnod blaenorol.

## Safon Cyllid

Mae Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi'i eithrio rhag gofynion Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Ariannu Cynllun) 2005. Mae'r Ymddiriedolwyr, fodd bynnag, yn dilyn cyngor gan gynghorwyr proffesiynol y Cynllun, yn ystyried mabwysiadu'r rheoliadau perthnasol fel mater o arfer da lle bo hynny'n ymarferol.

## **Statws Treth y Cynllun**

Mae Cynllun Pensiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gynllun pensiwn statudol o dan Adran 611A o Ddeddf Trethi Incwm a Chorfforaethol 1988, fel y'i diwygiwyd gan Atodlen 12 o Ddeddf Cyllid 1999, ac mae'n gynllun cofrestredig tybiedig o dan Ddeddf Pensiynau 2004 ac yn 'gynllun cymeradwy' at ddibenion derbyn gwerthoedd trosglwyddo.

## **Rheolwr Buddsoddi**

Ymhlith cyfrifoldebau Baillie Gifford y mae:

- (i) cyflawni'r holl swyddogaethau o ddydd i ddydd sy'n ymwneud â rheoli'r Gronfa;
- (ii) dyrannu'r portffolio cytbwys rhwng categorïau buddsoddiadau a dethol stociau unigol o fewn pob categori buddsoddiadau;
- (iii) penderfynu a yw'n briodol cadw neu ryddhau buddsoddiadau unigol o fewn y portffolio;
- (iv) arfer y pwerau buddsoddi mewn ffordd a fydd yn gweithredu'r egwyddorion yn y Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi (SIP), os yw hynny'n ymarferol, ac yn benodol, yn rhoi ystyriaeth i ba mor addas ac amrywiol yw'r buddsoddiadau o fewn y canllawiau a bennir gan yr Ymddiriedolwyr.

## **Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (AVCs)**

Caiff cyfraniadau blynyddoedd ychwanegol eu buddsoddi gyda'r cyfraniadau arferol yng nghronfa'r cynllun.